



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gweithredu'r newid i Gyfradd y Comisiwn ar Gartrefi mewn Parciau

Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2019

Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad (t. 3)**
- 2. Crynodeb byr o'r canfyddiadau (t. 4)**
- 3. Cwestiynau 1, 2 a 2a – Gweithredu Cyfradd y Comisiwn (t. 5)**
- 4. Cwestiynau 3 a 3a – Canllawiau anstatudol (t. 8)**
- 5. Cwestiwn 4 – Rhoi gwybod am y newidiadau (t. 10)**
- 6. Cwestiwn 5 – Rheoliadau drafft (t. 11)**
- 7. Cwestiynau 6 a 7 – Y Gymraeg (t. 12)**
- 8. Cwestiwn 8 – Sylwadau eraill perthnasol (t. 13)**
- 9. Casgliad (t. 14)**

1. Cyflwyniad

Ffi sy'n daladwy i berchennog y safle pan fo cartref mewn parc yn cael ei werthu yw Cyfradd y Comisiwn ar Gartrefi mewn Parciau. Mae'r gyfradd bresennol o 10% wedi bod yn ei lle ers 1983. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i ragnodi uchafswm cyfradd y comisiwn mewn rheoliadau.

Ar 5 Mehefin 2018, cyhoeddodd y Gweinidog Tai ac Adfywio bryd hynny ei bod wedi penderfynu gostwng uchafswm cyfradd y comisiwn o 1 pwynt canran y flwyddyn, dros gyfnod o 5 mlynedd, i uchafswm terfynol o 5% o'r pris prynu. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl ymgynghoriad 12 wythnos a ddaeth i ben ym mis Awst 2017 (a daeth bron i 400 o ymatebion i law) ac ar ôl comisiynu dadansoddiad ariannol annibynnol hefyd.

Yn dilyn ymrwymiad i drafod â'r sector, roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn barn ar sut y dylid gweithredu'r penderfyniad. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar yr amseriad o ran cyflwyno'r gostyngiad, pa ganllawiau sydd eu hangen i ategu'r newid, a beth yw'r ffordd orau o roi gwybod am y newid hwn.

2. Crynodeb byr o'r canfyddiadau

Daeth 40 o ymatebion i law i gyd. Dyma ddadansoddiad ohonynt:-

- Perchnogion Cartrefi mewn Parciau 7 (17.5%)
- Perchnogion Safle 11 (27.5%)
- Cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant 3 (7.5%)
- Cymdeithasau Preswylwyr Cymwys 5 (12.5%)
- Heb ei nodi 14 (35%)

Dyma'r 3 chorff sy'n cynrychioli'r diwydiant a gyflwynodd ymatebion:

- Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BH&HPA)
- Y Cyngor Carafanau Cenedlaethol (NCC)
- Y Gwasanaeth Cyngori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau (IPHAS)

O'r 11 ymateb a ddaeth i law gan berchnogion safle, cyflwynodd 8 e-bost a oedd yn cadarnhau eu bod naill ai'n aelod o Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain ac yn ategu ymatebion Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain, neu wedi cyflwyno ffurflenni a oedd yn cyfeirio at ymatebion Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain neu'n dweud yr un peth â'r Gymdeithas.

At ddibenion dadansoddi'r ymatebion ar gyfer y papur hwn, mae pob ymateb sy'n cefnogi sylwadau Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain yn cael ei drin fel safbwynt ar wahân. Hynny yw, pan fo Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain wedi gwneud sylw, mae'r sylw hwnnw'n cael ei drin fel petai wedi dod i law 9 gwaith (hynny yw, wedi cael ei wneud gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain ac 8 ymatebydd arall).

Y prif ganfyddiadau

- ❖ Roedd 58% o'r ymatebwyr eisiau i'r newid gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2019 neu cyn hynny.
- ❖ O'r tri ymateb a ddaeth i law gan gyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant (Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain, y Cyngor Carafanau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cyngori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau), nid oedd neb o'r farn y dylid gweithredu'r newid yn 2019.
- ❖ Roedd 97% o'r farn y dylid cyhoeddi canllawiau anstatudol sy'n ymdrin â'r newidiadau.
- ❖ Roedd 86% o'r farn y dylid rhoi gwybod am y newid mewn taflenni gwybodaeth, drwy'r awdurdodau lleol a chyrff sy'n cynrychioli'r sector.

3. Cwestiynau 1, 2 a 2a – Gweithredu Cyfradd y Comisiwn

Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud ag amseriad y newid cyntaf i Gyfradd y Comisiwn

Roedd cwestiwn 1 yn gofyn barn ynghylch pa flwyddyn y dylai'r gostyngiad canrannol cyntaf ddigwydd.

O'r 38 ymateb a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn:

Dewisodd 19 (50%) o ymatebwyr 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a nododd y dylai'r gostyngiad cyntaf ddigwydd yn 2019, yn teimlo bod digon o amser wedi ei roi i baratoi ar gyfer gweithredu'r newid.

Dewisodd 5 (13%) o'r ymatebwyr 2020. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd 2020, gan gynnwys y Cyngor Carafanau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cyngori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau, yn teimlo y byddai hyn yn rhoi mwy o amser i baratoi ar gyfer y newid.

Dewisodd 14 (37%) o ymatebwyr "arall". Dyma ddadansoddiad pellach o hynny:-

- roedd 3 (8%) yn awgrymu "Immediately/Yn syth" neu "As soon as possible/Cyn gynted â phosibl"
- roedd 9 (23%) yn awgrymu 2021
- roedd 1 (3%) yn awgrymu 2023
- roedd 1 (3%) yn awgrymu "Never/Byth".

O'r ymatebwyr hyn, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain a'i haelodau a awgrymodd na ddylai'r newid cyntaf ddigwydd tan 2021.

Roedd cwestiwn 2 yn holi a oedd yr ymatebwyr yn cytuno mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai gweithredu'r newid ym mis Ebrill i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol. Roedd cwestiwn 2a yn gofyn i'r rheini a oedd yn anghytuno â mis Ebrill i nodi pa fis fyddai orau ganddyn nhw.

O'r 35 ymateb a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn:

Roedd 24 (69%) o'r ymatebwyr yn credu mai mis Ebrill oedd y mis gorau

Roedd 11 (31%) o'r ymatebwyr yn anghytuno. Dyma'r misoedd gorau yn eu barn nhw:

- roedd 8 (22%) yn awgrymu mis Mai
- roedd 2 (6%) yn awgrymu mis Ionawr
- roedd 1 (3%) yn awgrymu mis Chwefror

Dyma ddadansoddiad llawn o'r dyddiadau a awgrymwyd ar gyfer y gostyngiad cyntaf:

22 (55%) - Ebrill 2019 (neu'n gynt na hynny)

1 (2.5%) - Chwefror 2020

4 (10%) – Ebrill 2020

1 (2.5%) - Ionawr 2021

8 (20%) – Mai 2021

- 1 (2.5%) – Ebrill 2023
- 1 (2.5%) – Byth
- 2 (5%) – Heb roi ateb

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r newid cyntaf ddigwydd ym mis Ebrill 2019. Er hynny, roedd 2 o'r cyrff sy'n cynrychioli'r sector, sef y Gymdeithas Carafannau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau, yn credu y dylid ei gyflwyno cyn mis Ebrill 2020, tra bo Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain yn teimlo na ddylid ei gyflwyno cyn mis Mai 2021. Roedd y 3 sefydliad cynrychioladol yn teimlo bod rhaid cael mwy o amser i baratoi ac i roi gwybod am y newidiadau cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Dyma'r sylwadau a ddaeth gyda'r opsiwn Ebrill 2019 (neu'n gynt na hynny):

- “We need action now as residents are all elderly”
- “Should be as soon as possible”
- “This is long overdue and in view of the fact that it mainly affects older people who may have to sell for health reasons it is unfair to penalise them any longer.”
- “If there has been a decision to make a change, there is no sense in delaying that change. That would amount to not making any decision.”
- “It has been a long battle just to get to this point. The longer it is delayed the more it will be to the detriment of park home residents.”

Dyma'r sylwadau a ddaeth gyda'r opsiwn Ebrill 2020:

- “Would like to know how much site fees will raise in time to relocate if necessary”
- “Time for preparation” (IPHAS)
- “The NCC believes the proposed implementation date of April 2019, as set in the consultation, will not give enough time for representative bodies or the Welsh Government to inform businesses of the change, but more importantly, will not provide Residential Park operators with the time they need to amend their operational budgets and business plans as a result of this loss of income.

Also, we understand that a new written statement will need to be produced and published for all new sales of park homes (mobile homes) by the park owner after the commencement date of the Regulations. This will allow the implied terms to be changed and relevant information sent to all parties about timescales ahead of the implementation date.” (NCC)

Dyma'r sylwadau a ddaeth gyda'r opsiwn Mai 2021:

- “To allow time to adjust business model and consider alternative options that may require planning applications.”
- Cafwyd yr ymateb hwn gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain, ac roedd 8 o'i haelodau'n cefnogi'r safbwynt hwn:

“The Minister for Housing and Regeneration made a public commitment to the effect that site owners would require time to adjust their business models to reflect the commission changes and that these adjustments may include increasing pitch fees.

It is essential that any pitch fee increase does not take place later than the commission reduction which it is designed to mitigate.

It is also essential that the timing of the commission reduction does not undermine community cohesion by forcing the parties into tribunal proceedings to determine the new pitch fee prematurely, whilst there is any possibility that these proceedings may be avoided. Pitch fees are adjusted annually. Paragraph 17(3) of Chapter 2 of Schedule 2 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013 requires the park owner to give at least 28 clear days' notice of the proposals for the new pitch fee in advance of the review date. This means that the first reviews which will be able to take account of Regulations taking effect on 1 April 2019 are those taking place on or about 1 May 2019. Only by 30 April 2020 will park owners have had the opportunity to propose reviews for all agreements which would be affected by the first commission reduction.

To avoid community cohesion being undermined more than necessary in these difficult circumstances, the timing of the change should give the parties a reasonable opportunity to establish whether there has been a misunderstanding and/or discuss the possibility of reaching an agreement before tribunal proceedings must be issued. As the park owner must apply to the tribunal for an order determining the amount of the new pitch fee no later than 3 months after the review date, the time for doing so in respect of pitch fee review dates in April 2020 will end in July 2020. Proceedings could take between 6 and 9 months to determine, subject to any appeal. This means that pitch fee reviews which take the first adjustment proposed by the Regulations into account may not be determined until April 2021, subject to any appeal. Therefore we believe the first adjustment should not take place until May 2021.”

4. Cwestiynau 3 a 3a – Canllawiau anstatudol

Roedd cwestiwn 3 yn holi a fyddai canllawiau anstatudol gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol, er mwyn sicrhau bod pawb yn glir o ran y newid.

Roedd cwestiwn 3a yn gofyn i'r rheini a oedd yn cytuno y byddai hyn yn ddefnyddiol i nodi beth y dylid ei gynnwys yn y canllawiau yn eu barn nhw.

Cafwyd 38 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

Roedd 37 (97%) yn cytuno

Roedd 1 (3%) yn anghytuno

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r awgrymiadau a wnaed yn y papur, a faint o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid eu cynnwys yn y canllawia.

Dyddiad y gostyngiad cyntaf	37 (97%)
Dyddiadau'r gostyngiadau dilynol	36 (95%)
Eglurder ynghylch pa uchafswm cyfradd sy'n gymwys gan ddibynnu ar pryd y mae'r gwerthiant yn digwydd (gydag esiamplau efallai).	35 (92%)
Eglurhad pellach i werthwyr, prynwyr a pherchnogion safle ynghylch pwy sy'n talu cyfradd y comisiwn ac i bwy y telir y ffi	36 (95%)

Dyma rai awgrymiadau eraill a wnaed:

- “Details of any exceptions/exemptions”
- “All site owners must be informed they are not allowed to increase pitch fees to compensate for any loss, and can only be applied by permission of RPT as a last resort.”
- “What caps if any is put on landlords right to raise rents to compensate for lost commission”
- “Guidance should explain the effect on pitch fees, how the law allows the site owner to propose an increase in pitch fees to compensate for loss of income resulting from the decision and the steps which the parties may take to reach agreement about the new pitch fee, or for the question to be determined.” (BH&HPA)
- “Such guidance should provide the greatest possible clarity to avoid acrimony and referrals to the Tribunal where compensatory pitch fee increases are proposed. It would also close the door to any rogue park owners seeking to exploit the change by proposing reviews which do not comply with the statutory guidelines. For example, the guidance might show possible ways for calculating

compensatory increases by reference to the commission income which the particular park is likely to lose.” (BH&HPA)

- “Any guidance needs to be explicit in relation to:-
(1) the fact that park owners are permitted by law to propose an increase in pitch fees to compensate for loss of income resulting from the decision; and
(2) the process by which agreement about the new pitch fee can be agreed, or the question determined.”
- “There should be further information included about the sales process and the forms which should be completed at each stage, especially about the form of assignment and notice of assignment. It is these two forms which will indicate the date of the assignment of the agreement under the Act which will be relevant for the rate of commission to be applied.” (NCC)
- “There should also be the standard information about disputes and the Tribunal process.” (NCC)
- “Separate guidance should be considered as to the options available to the park owner to address loss of income and how this should be approached with residents, together with information about what to do if any review is not agreed.” (NCC)
- “Please inform both parties that the rate is "up to" % it is not compulsory to have to pay the full percentage. Also that it should be very precisely spelled out to park owners that any pitch fee increases they may wish to impose to cover their loss can only be applied by permission of the RESIDENTIAL PROPERTY TRIBUNAL”
- “Options available to park operator to compensate for lost income such as amendments to pitch fee, alternative options for parks such as traditional housing or holiday options.”

5. Cwestiwn 4 – Rhoi gwybod am y newidiadau

Roedd cwestiwn 4 yn gofyn sut y dylid rhoi gwybod am y newid i'r gyfradd a ragnodir i berchnogion safle, preswylwyr a darpar brynwyr ac unrhyw bartion eraill â diddordeb sy'n ymwneud â chartrefi mewn parciau (gwerthwyr tai, cyfreithwyr etc.)

Cafwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r awgrymiadau a wnaed yn y papur ar gyfer cyfathrebu'r newidiadau, a faint o'r ymatebwyr a oedd yn eu cefnogi.

Taflen wybodaeth	34 (92%)
Cysylltu trwy gyrrff cynrychioliadol (Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain, y Cyngor Carafanau Cenedlaethol, Cymdeithas Genedlaethol Preswylwyr Cartref mewn Parc, Gwasanaeth Cyngori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau etc.)	33 (89%)
Cysylltu drwy awdurdodau lleol	32 (86%)

Dyma rai awgrymiadau eraill a wnaed:

- “Estate Agents, Trade Associations.”
- “Communication by Welsh Government via all possible media”.(BH&HPA)
- “The NCC believe that a coordinated communications approach will target the largest audience and would therefore welcome further dialogue with the Welsh Government to ensure that our membership base is fully engaged with at the earliest convenience.
- The NCC believe that all information should be published on the Welsh Government’s website. We would also welcome support from other advice agencies such as Citizens’ Advice.”
- “LEASE, Park Home magazines” (IPHAS)
- “Holiday caravan magazines.”
- “ 'COUNCIL TAX' lists as other bodies such as Council Licensing do not have the names and addresses of ALL park home residents.”
- “Maximum possible use of public media (TV, radio/local radio, newspapers and magazine articles) and social media.”
- “All assembly members and members of parliament”

- “Direct communication from site owners through the regular channels they communicate with their tenants”

6. Cwestiwn 5 – Rheoliadau drafft

Roedd cwestiwn 5 yn gofyn am sylwadau ar y rheoliadau drafft y bydd yn rhaid i'r Cynulliad gytuno arnynt cyn y bydd y newid i gyfradd y comisiwn yn digwydd.

Cafwyd 20 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd dau sylw a ddaeth i law yn cynnig gwelliannau i'r rheoliadau a fyddai'n newid y bwriad polisi.

- Awgrymodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain y dylid newid y rheoliadau fel bod y newid yng ngyfradd y comisiwn yn gymwys i gytundebau newydd a roddwyd gan y parc yn unig; neu, o dan y trefniadau presennol, yr ail werthiant o dan y Rheoliadau newydd. Roedd ei haelodau a ymatebodd hefyd yn cefnogi hyn.
- Awgrymodd y Gwasanaeth Cyngori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau newid y Rheoliadau fel na ellid ystyried y gostyngiad yng ngyfradd y comisiwn fel rhan o unrhyw adolygiad o ffioedd llain.

Nid yw unrhyw un o'r rhain wedi cael eu hystyried gan eu bod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Awgrymodd un sylw bod angen diwygio'r drafft i gynnwys y geiriau "hyd at" o flaen y ffigur canran perthnasol, er mwyn sicrhau mai uchafswm y gyfradd oedd hwnnw ac nid cyfradd orfodol a ddiffinir. Er hynny, nid oes angen gwneud hyn oherwydd bod y cyfeiriadau perthnasol at gyfradd y comisiwn yn adrannau 9(4) a 10(8) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn sôn am "raddfa nad yw'n fwy nag unrhyw raddfa a bennir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru". Mae hyn, felly'n yn crisialu'r ffaith mai dyma'r gyfradd uchaf a ganiateir.

Nid oedd y sylwadau eraill a ddaeth i law yn cyfeirio o gwbl at wella'r rheoliadau drafft mewn unrhyw ffordd.

7. Cwestiynau 6 a 7 – y Gymraeg

Roedd cwestiynau 6 a 7 yn gofyn barn ynghylch pa effaith y byddai'r rheoliadau yn eu cael ar y Gymraeg, a sut y gellid eu newid er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol, neu mwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

Cafwyd 28 o ymatebion

Roedd y mwyafrif yn credu na fyddai'r rheoliadau'n cael effaith ar y Gymraeg. Ni chafwyd awgrymiadau ar sut i newid rheoliadau er mwyn iddynt gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Dywedodd llawer o'r rhai a ymatebodd nad oeddent yn deall perthnasedd y cwestiynau i weithredu'r newid yng nghyfradd y comisiwn.

8. Cwestiwn 8 – Sylwadau eraill perthnasol

Roedd cwestiwn 8 yn gyfle i roi sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig.

Cafwyd 8 o ymatebion a oedd yn cynnwys sylwadau pellach. Dyma ddetholiad:

- “I understand landlords will be able to raise rents by way of compensation is there a percentage cap on how much and is this increase only on the year of implementation or does it roll on in perpetuity?”
- “The question that I have is, “what does the Welsh Government propose that I do as a micro business in Wales to create extra income to enable me to help repay my loan”.”
- “We earn less than the minimum wage, yet we are being punished for our hard work by the housing minister. There should be a much fairer system in place to reward Parks on their achievements and bring the ‘rouge landlords’ to book!”
- “Reverse the decision and leave the commission rate at 10%”.
- “We are concerned that these changes will be applied retrospectively and therefore completely change the Agreement between our homeowners and the park owner. In our view the changes should only apply to new Agreements whereby that new buyer is given options to enter into an agreement which either retains the commission at 10% or gives them the opportunity for a reduced commission and a higher pitch fee.

In essence our Company feels it is fundamentally wrong to simply take away an important part of our income without proper measures in place to compensate for that. We feel that the whole process has ignored the advice and findings of the various surveys carried out on behalf of the Welsh Assembly and also those conducted by our trade association. Our Company remains extremely concerned that our parks in Wales are not going to make sufficient income for them to remain viable and may become a parasite to the English parks. Moreover, we are concerned England will feel compelled to follow suit in which case this would be the state of the decline of the whole industry and the quality of the parks provided to our customers.”

- “PLEASE GET ON WITH IT”
- “The Minister's decision and presentation of her arguments are excellent and it is difficult to see how there could be any reasonable opposition, given the long lead time which allows full scope for site owners to cope without adverse effect on their business. I myself question why the decision should be expected to lead to a rise in site fees, and I am not sure site owners should be encouraged to think this. This effectively sanctions a rise in site fees as an offset to the reduction in commission charge, which shifts the commission burden from relatively few sellers to all lodge owners as annual fee payers, thus cancelling out the potential benefit of the reduction!”

9. Casgliad

Cwestiynau 1, 2 a 2a: yr amseriad o ran gweithredu'r newid

Tra bo'r mwyafrif helaeth o'r ymatebion a ddaeth i law yn cefnogi cyflwyno'r gostyngiad cyntaf o 1% ym mis Ebrill 2019 (58%), dylid nodi nad oedd y tri chorff sy'n cynrychioli'r diwydiant wedi mynegi'r farn hon. Mae'r Gymdeithas Carafanau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau yn credu y dylai'r newid ddigwydd ym mis Ebrill 2020 ar y cynharaf ac mae Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain yn credu y dylai'r newid ddigwydd ym mis Mai 2021. Y rheswm cyffredinol am hyn yw er mwyn rhoi cyfnod rhesymol o amser i baratoi ar gyfer y newid.

Mae'n glir iawn, felly, bod cryn wahaniaeth barn ynghylch y flwyddyn y dylai'r newid ddigwydd ac mae gwahaniaeth barn hefyd o ran y mis y dylai'r newid ddigwydd ym mha bynnag flwyddyn. Er hynny, mae 69% o'r ymatebwyr wedi dewis mis Ebrill, sydd felly yn rhoi gwell consensws.

Ni ellir penderfynu ar ddyddiad gweithredu tan i Adolygiad Barnwrol sy'n mynd rhagddynt ddod i ben. Bydd diweddariad pellach ar y mater hwn yn cael ei ddarparu ar yr adeg honno.

Cwestiynau 3, 3a a 4: canllawiau anstatudol a rhoi gwybod am y newidiadau

Roedd 97% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r awgrym o gael canllawiau anstatudol ar y newidiadau, gan gynnwys yr holl bynciau a gafodd eu hawgrymu yn y papur ymgynghori. Gwnaed nifer o awgrymiadau eraill o'r hyn y gellid ei gynnwys yn y canllawiau (gweler tudalen 8). Bydd yr holl bwyntiau hyn yn cael eu hystyried wrth lunio'r canllawiau.

Yn gyffredinol, roedd pawb yn cytuno ar ba sianelau i'w defnyddio ar gyfer rhoi gwybod am y newid. Cafwyd cefnogaeth eang i'r defnydd o daflenni gwybodaeth, a'r angen i gyfathrebu'r newid drwy'r cyrff cynrychioliadol ac awrdodau lleol. Cynigwyd nifer o opsiynau ychwanegol hefyd, (gweler tudalen 10) a bydd y rhain yn cael eu hystyried pan fo'r cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu.

Roedd yr ymatebion bron yn unfrydol yn eu dymuniad i weld canllawiau clir a chyfathrebu effeithiol ar y newidiadau sydd yn yr arfaeth a sut y byddant yn effeithio arnynt. Gofynnodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain a'i haelodau am enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'r newidiadau'n mynd i weithio'n ymarferol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau a'r deunyddiau cyfathrebu ategol.

Roedd nifer o ymatebion a ddaeth i law yn tynnu sylw at y ffaith bod peth dryswch a chamddealltwriaeth yn bodoli yn y sector o ran:

- sut y bydd y newidiadau i gyfradd y comisiwn yn cael ei weithredu;
- beth fydd effaith y newidiadau hynny ar unigolion; a

- yr hyn a all/na all unigolion ei wneud o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Mae'n bwysig mynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth o'r fath drwy ganllawiau a deunyddiau cyfathrebu.

O ganlyniad i'r sylwadau a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad hwn:

- bydd canllawiau anstatudol yn cael eu llunio cyn i unrhyw newid ddod i rym.
- bydd rhaglen gyfathrebu debyg i'r un a gynigir yn y papur ymgynghori, gan roi ystyriaeth i'r safbwyntiau ychwanegol a ddaeth i law, yn cael ei rhoi yn ei lle cyn cyflwyno unrhyw newidiadau.

Cwestiwn 5: Rheoliadau drafft

Dim ond 50% o'r ymatebwyr atebodd y cwestiwn hwn ac nid oedd y rhan fwyaf o'r atebion hynny yn cyfeirio at unrhyw newidiadau o ran y drafftio.

Nid yw'r ymatebion sy'n awgrymu newid i'r penderfyniad polisi ar gyfradd y comisiwn wedi'u hystyried gan eu bod y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

Ystyriwyd un mater a godwyd o ran eglurder y drafftio ac mae'r ymateb ar dudalen 11.

O ganlyniad i'r sylwadau a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad hwn, bydd angen i unrhyw reoliadau drafft gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu dyddiadau unrhyw newidiadau.

Ystyrir nad oes angen newidiadau eraill.